



Dogfen Bolisi

Polisi ar gyfer Cyhoeddi Ystadegau Swydddogol

Mae'r polisi hwn yn disgrifio'r polisïau a'r gweithdrefnau a ddefnyddir gan Awdurdod Cyllid Cymru, wedi'i dalfyrru i ACC neu "ni" / "ein" yn y ddogfen hon, i gyhoeddi ystadegau swydddogol.

Dyddiad adolygu: Ionawr 2019

Awdur: Dave Jones, Adam Al-Nuaimi

llyw.cymru/acc

data@acc.llyw.cymru

Y Polisi

Cynnwys

1. Uniondeb Ystadegau Swyddogol ACC a cwrdd y Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau
2. Arferion rhyddhau
3. Mynediad i Ystadegau Swyddogol cyn iddynt gael eu cyhoeddi
4. Ymgysylltu â'n defnyddwyr
5. Diwygiadau
6. Storio a rheoli data
7. Cwynion

Atodiadau

- Atodiad A: Geirfa
- Atodiad B: Datganiad: Mynediad cyn-rhyddhau i ystadegau ar eu ffurf derfynol

1. Uniondeb Ystadegau Swydddogol ACC a cwrdd y Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau

- 1.1. Mae ACC yn cael ei enwi yng Ngorchymyn Ystadegau Swydddogol (Cymru) 2017 fel corff sy'n cynhyrchu ystadegau swydddogol yng Nghymru, fel y'i diffinnir gan Ddeddf Ystadegau a Gwasanaethau Cofrestru 2007.
- 1.2. Y swydddog arweiniol dros ystadegau yn ACC, sef y Pennaeth Dadansoddi Data, sy'n rheoli'r gwaith o gyhoeddi ystadegau swydddogol ACC. [Mae cyfrifoldebau'r swydddog arweiniol dros ystadegau yn cael eu diffinio gan Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig.](#)
- 1.3. Byddwn yn ymgysylltu â rhwydweithiau a phwyllgorau System Ystadegol y Deyrnas Unedig drwy'r Pennaeth Proffesiwn ar gyfer Ystadegau a Phrif Ystadegydd Llywodraeth Cymru. Ond dylai System Ystadegol y DU barhau i ystyried ACC yn adran anweinidogol gyda gofynion defnyddwyr annibynnol sy'n wahanol i rai Llywodraeth Cymru.
- 1.4. Rydym yn mabwysiadu [Cod Ymarfer Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig ar gyfer Ystadegau](#) wrth gynhyrchu Ystadegau Swydddogol ACC. Mae'r rhestr isod yn amlinellu'r mathau o ddatganiadau ystadegol y mae ACC wedi'u gwneud, neu y bydd yn eu gwneud o bosib yn y dyfodol.

Datganiadau cyntaf: Mae'r rhain yn berthnasol i ystadegau a gyhoeddir gan ACC lle nad yw'r data ar gyfer cyfnod o amser yn y parth cyhoeddus ar hyn o bryd. Mae ein datganiadau cyntaf un ai yn ddatganiadau **data yn unig** lle rydym yn cyhoeddi data ar [StatsCymru](#), neu'n **adroddiad gyda setiau data cysylltiedig** yn cynnwys dadansoddiad a

sylwebaeth, a fydd yn cael eu cyhoeddi ar wefan ACC (yn ychwanegol at gyhoeddi'r data ar [StatsCymru](#)).

Bwletinau: Bydd y rhain yn cael eu defnyddio i ddadansoddi ystadegau'n fwy manwl lle mae'r data wedi cael ei gyhoeddi'n barod.

Erthyglau: Bydd y rhain yn cael eu defnyddio ar gyfer dadansoddiadau manwl lle nad yw ansawdd y data sylfaenol wedi'i gadarnhau fel data sy'n ddigonol ar gyfer ystadegau swyddogol. Gallai erthyglau o'r fath gael eu labelu'n ystadegau arbrofol.

Ceisiadau ad-hoc: Dyma ddadansoddiadau sydd wedi cael eu cynnal yn dilyn cael cais gan rywun y tu allan i'r llywodraeth, nad yw eisoes wedi cael sylw mewn data cyhoeddedig. Mae hefyd yn berthnasol i ddadansoddiadau y mae'r llywodraeth yn gofyn amdanynt sydd i'w gwneud yn gyhoeddus. Bydd y rhain ar gael yn rhad ac am ddim.

2. Arferion rhyddhau

Cyhoeddi ystadegau

- 2.1. Bydd datganiadau ystadegol yn cael eu cyhoeddi, yn unol â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau, ar [dudalen amserlen cyhoeddi ystadegau ACC, ar wefan ACC](#). Bydd yr amserlen cyhoeddi'n rhestru'r cyhoeddiadau sydd yn yr arfaeth gennym a bydd yn gweithredu fel ein cynllun gwaith ystadegol i'r dyfodol.
- 2.2. Bydd datganiadau ystadegol y Dreth Trafodiadau Tir yn cael eu cyhoeddi bob mis (data yn unig); bob chwarter; ac yn flynyddol. Bydd datganiadau ystadegol y Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn cael eu cyhoeddi bob chwarter ac yn flynyddol.
- 2.3. Bydd dyddiad y Datganiadau Cyntaf, y Bwletinau a'r Erthyglau Ystadegol yn cael eu cyhoeddi o leiaf 4 wythnos cyn iddynt gael eu cyhoeddi (ac fel arfer 3 mis ymlaen llaw). Bydd ceisiadau ad hoc i ACC yn cael eu cyhoeddi'n brydlon (dim mwy na phytthefnos) ar ôl iddynt gael eu darparu i gefnogi mynediad cyfartal i'n hystadegau. Pan wneir cais am ystadegau ar gyfer areithiau, Cwestiynau'r Cynulliad, neu hysbysiadau i'r wasg, ein nod yw cyhoeddi'r ystadegau cyn iddynt gael eu defnyddio'n gyhoeddus, neu'n fuan iawn wedyn.
- 2.4. Mae'n bosib y bydd gwefan Llywodraeth Cymru hefyd yn cynnwys dolenni i ddatganiadau ACC am ystadegau swyddogol sydd yn yr arfaeth. Ni fydd ystadegau ACC yn cael eu cyhoeddi ymlaen llaw ar 'hyb' cyhoeddiadau Llywodraeth y DU.

Cynnwys

- 2.5. Swyddog arweiniol ACC sy'n llwyr gyfrifol am benderfynu ar ddulliau, safonau a gweithdrefnau, ac am gynnwys ac amseriad rhyddhau ystadegau swyddogol rheolaidd ac ad hoc. Mae hyn cynnwys (ond heb eu cyfyngu iddynt): penderfynu ar yr angen am ystadegau swyddogol newydd; rhoi'r gorau i ryddhau ystadegau swyddogol; a datblygu ystadegau arbrofol.

Arferion cyhoeddi

- 2.6.** Bydd ein datganiadau ystadegol yn cael eu cyhoeddi ar wefan ACC, yn rhad ac am ddim, am 9.30am ar y dyddiad a nodwyd. Byddant ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.
- 2.7.** Cyn i ddatganiadau ystadegol gael eu cyhoeddi ar wefan ACC, byddant wedi'u nodi â'r marc diogelwch 'Swyddogol: Sensitif', yn unol â [Dosbarthiadau Diogelwch y Llywodraeth](#). Ar ôl eu cyhoeddi, ni fydd y datganiadau ystadegol yn cael eu marcio felly a byddant yn dod o dan y Drwydded Llywodraeth Agored, sy'n golygu y gall pawb gael mynediad iddynt, eu defnyddio neu eu rhannu heb ddim cyfyngiadau.
- 2.8.** Byddwn yn cyhoeddi ystadegau yn unol ag egwyddorion [polisi daearyddiaeth Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth \(GSS\)](#), sy'n sicrhau yn benodol bod codau daearyddiaeth y GSS sydd wedi'u derbyn yn cael eu cyhoeddi ochr yn ochr ag enwau'r ardaloedd a'r data perthnasol pan fydd unrhyw ddadansoddiad yn cael ei wneud yn ôl ardal.
- 2.9.** Bydd ein hystadegau ar gael ar [StatsCymru](#), llwyfan data agored. Er y cyflwynir y data i ddechrau mewn fformat taenlen, rydym wthi'n gweithio tuag at gyhoeddi setiau data llawn [StatsCymru](#) i sicrhau bod defnyddwyr yn gallu manteisio ar y nodwedd data agored a mynediad agored i'r wybodaeth ategol gysylltiedig.

Talgrynnu, datgelu a goruchafiaeth

- 2.10.** Bydd y talgryniad canlynol yn cael ei ddefnyddio gyda holl gyhoeddiadau ACC oni nodir fel arall.

Newidyn	Lefel y talgrynnu (i'r agosaf)
Nifer y drafodiadau	10
Treth sy'n ddyledus	£100,000 (£0.1 miliwn)
Gwerth yr eiddo (cydnabyddiaeth)	£1 miliwn
Pwysau	1,000 tonnell

- 2.11.** Bydd rheolau datgelu'n cael eu defnyddio ar gyfer ein datganiadau ystadegol. Pan fydd amcangyfrif yn seiliedig ar lai na bump o drafodiadau (h.y. nifer y trafodiadau'n sero neu yn talgrynnu i sero), bydd yr amcangyfrif yn cael ei atal.
- 2.12.** Mae rheolau goruchafiaeth yn cael eu defnyddio mewn perthynas â'n holl ddatganiadau ystadegol. Os nifer bach o drafodiadau sy'n cyfrannu at fwyafrif gwerth y gell, bydd y gwerth yn cael ei atal.

Symbolau

- 2.13.** Defnyddir y symbolau canlynol yn natganiadau ystadegol ACC.

Symbol	Diffiniad
R	Mae'r gwerth hwn wedi ei ddiwygio yn y cyhoeddiad hwn
P	Mae'r gwerth hwn dros dro a bydd yn cael ei ddiwygio mewn cyhoeddiad yn y dyfodol
*	Mae'r gwerth hwn yn seiliedig ar nifer y drafodiadau nad yw'n ddigon mawr i roi cynrychiolaeth ddiogel ac mae wedi cael ei atal yn y cyhoeddiad hwn.
~	Yn cynrychioli gwerth sy'n talgrynnu i 0, ond sydd heb fod yn 0

3. Mynediad i Ystadegau Swyddogol cyn iddynt gael eu cyhoeddi

Datblygu a chyhoeddi datganiadau ystadegol

- 3.1.** Yn ystod y broses o gyhoeddi ystadegau, mae nifer bach o bobl angen cael mynediad i'r systemau ystadegol a'r deunyddiau a fydd yn cael eu cyhoeddi fel ystadegau swyddogol. Dan oruchwyliaeth y swyddog arweiniol yn ACC, mae'r ystadegau'n cael eu rhannu â chydweithwyr yn y rolau canlynol, cyn eu cyhoeddi o dan y Drwydded Llywodraeth Agored:
- **ystadegwyr a dadansoddwyr** a fydd yn cynhyrchu'r dadansoddiad a gyflwynir ac yn cynnal y systemau ystadegol;
 - **cyfieithwyr** sy'n cyfieithu'r dadansoddiad ysgrifenedig;
 - **cydweithwyr cyfathrebu** sy'n darllen y dadansoddiad ysgrifenedig yn Gymraeg a Saesneg i sicrhau bod y dehongliad yn gywir a bod y termau a ddefnyddir yn gyson;
 - **staff diogelwch a TG** sydd angen cael mynediad i systemau lle cedwir y data i sicrhau nad yw'r data'n agored i fygythiadau allanol (ond heb iddynt gael mynediad i'r data); a
 - **rheolwyr y we** sy'n cyhoeddi'r cyhoeddiadau a'r setiau data ar wefan ACC ac ar [StatsCymru](#).
- 3.2.** Rhaid i'r rheini sydd â mynediad i ystadegau fel rhan o'r broses gynhyrchu lofnodi'r cytundeb yn Atodiad B.
- 3.3.** Mae nifer y bobl sydd â mynediad i ystadegau cyn eu cyhoeddi yn cael ei gadw i'r nifer lleiaf posibl.

Ystadegau ar eu ffurf derfynol (Mynediad Cyn-rhyddhau)

- 3.4.** Mae'r ystadegau ar eu ffurf derfynol yn cael eu rhoi i swyddogion 24 awr cyn eu rhyddhau lle penderfynwyd bod hynny'n ofynnol ar gyfer eu rôl gan y swyddog arweiniol ar gyfer ystadegau yn ACC.
- 3.5.** Ar gyfer pob chwarter, byddwn yn cyhoeddi rhestr o'r rheini a gafodd fynediad i'r ystadegau ar ein gwefan.

- 3.6.** Byddwn yn defnyddio peirianwaith rhannu diogel i alluogi mynediad cyn-rhyddhau fel system SharePoint ACC neu e-bostio ar draws rhwydweithiau diogel.

4. Ymgysylltu â'n defnyddwyr

- 4.1.** I ddechrau, rydym wedi nodi'r rhanddeiliaid canlynol sydd wedi dangos diddordeb yn ein hystadegau:
- Bwrdd a staff Awdurdod Cyllid Cymru
 - Cyfoeth Naturiol Cymru
 - Y Cynulliad Cenedlaethol, y Pwyllgor Cyllid yn benodol
 - Llywodraeth Cymru, Trysorlys Cymru yn benodol
 - Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (CThEM)
 - Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol
 - Y Swyddfa Ystadegau Gwladol
 - Revenue Scotland
 - Y Gofrestrfa Tir
 - Asiantaeth y Swyddfa Brisio
 - Academia
 - Y Cyfryngau a'r Wasg
 - Cyfreithwyr a thrawsgludwyr
 - Aelodau'r cyhoedd a threthdalwyr
- 4.2.** Byddwn yn parhau i ymgysylltu a chydweithio gyda rhanddeiliaid sydd wedi'u nodi wrth ddatblygu ein cyhoeddiadau.
- 4.3.** Hefyd, ar y cyd â grwpiau defnyddwyr ystadegau treth a thai sy'n bodoli yng Nghymru ar hyn o bryd, byddwn yn ystyried y ffordd orau o ymgysylltu â'n defnyddwyr a chanfod eu blaenoriaethau ar gyfer datblygu ein rhaglenni ystadegol ymhellach.

5. Diwygiadau

- 5.1.** Diwygiadau yw'r hyn sy'n digwydd pan fydd gwerth yn cael ei newid ar ôl iddo gael ei gyhoeddi y tro cyntaf. Rydym yn cyhoeddi ystadegau sy'n cael eu diweddarau bob tro y'u cyhoeddir (proses wedi'i chynllunio); gan ddiweddarau ein hamcangyfrifon dros dro cychwynnol ar ôl i ffurflenni treth ychwanegol neu ddiwygiedig gael eu cyflwyno.
- 5.2.** Pan fydd tabl neu elfen o dabl yn cael ei ddiwygio, bydd yn cael ei nodi gan ddefnyddio'r canlynol:
- Pan fydd tabl cyfan yn cael ei ddiwygio, bydd yn cael ei nodi drwy roi "diwygiedig" neu "revised" ar ddiwedd y teitl.
 - Pan fydd is-set o dabl, fel y data ar gyfer rhes neu golofn benodol yn cael ei ddiwygio, (naill ai'n rhannol neu ar draws yr holl eitemau), bydd y symbol "r" yn cael ei ychwanegu at y golofn/colofnau neu res/resi i ddangos eu bod wedi cael eu diwygio.
 - Pan fydd cell unigol yn cael ei diwygio, bydd y symbol 'r' yn cael ei roi wrth ymyl y gwerth.

Diwygiadau wedi'u cynllunio

- 5.3.** Gan fod ein hystadegau'n seiliedig ar systemau data byw ac amser real, mae adolygiadau wedi'u cynllunio yn cael eu cynnal mewn perthynas â'r Dreth Trafodiadau Tir a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi. Gyda diwygiadau wedi'u cynllunio, mae amcangyfrifon yn cael eu diweddarau ar ôl i ddata ychwanegol gael ei ddarparu neu ar ôl i ffurflenni treth gael eu cywiro.
- 5.4.** Mae amcangyfrifon cyntaf o ddata y bwriedir eu diwygio yn y dyfodol yn cael eu labelu'n rhai dros dro.
- 5.5.** Bydd gwerthoedd sydd wedi'u marcio yn rhai dros dro yn defnyddio'r un strwythur gan newid (p) a dros dro am (r) a diwygiedig.

- 5.6.** Mae'r cyfieithiadau Cymraeg a dderbynnir ar gyfer y symbolau a'r ystyron hyn fel a ganlyn. Nid yw'r symbolau'n cael eu cyfieithu i osgoi'r angen am nifer o symbolau yn y tablau dwyieithog.

Saesneg	Cymraeg
Provisional (p)	Tymhorol neu dros dro (p)
Revised (r)	Diwygiedig (r)

Y Dreth Trafodiadau Tir - amseriad a diwygiadau sydd wedi'u cynllunio

- 5.7.** Gellir newid ffurflenni'r Dreth Trafodiadau Tir hyd am sawl blynedd ar ôl dyddiad dod-i-rym y trafodiad, sef y dyddiad cwblhau fel arfer. Hefyd, gellir cyflwyno ffurflenni treth newydd hyd at 30 diwrnod ar ôl y dyddiad dod-i-rym yn ddi-gosb, ac efallai ar ôl hynny hefyd. Ac felly, oherwydd ein bod yn cyhoeddi ar sail dyddiad dod-i-rym, mae data ar gyfer misoedd diweddar bob amser yn destun proses ddiwygio wedi'i chynllunio.
- 5.8.** Ar ôl cael adborth gan ein defnyddwyr a CThEM a arferai gyhoeddi ystadegau'n ymwneud â'r maes hwn, rydym wedi gweld bod angen sicr am ystadegau amserol oddi wrth ddefnyddwyr.
- 5.9.** Rydym felly'n cyhoeddi'r amcangyfrifon canlynol ar gyfer y Dreth Trafodiadau Tir:
- amcangyfrifon misol – cyhoeddi tablau data ar [StatsCymru](#);
 - amcangyfrifon chwarterol – cyhoeddi datganiad ystadegol ar ein gwefan yn ogystal â thablau data wedi'u diweddarau ar [StatsCymru](#), gyda sylwebaeth berthnasol; ac
 - amcangyfrifon blyneddol – cyhoeddi datganiad ystadegol ar ein gwefan yn ogystal â'r tablau data sydd wedi'u diweddarau ar [StatsCymru](#), gyda sylwebaeth berthnasol a rhagor o ddata manwl.
- 5.10.** Mae'r amserlen ar gyfer ein cyhoeddiadau misol a chwarterol mewn perthynas â'r Dreth Trafodiadau Tir i'w chael ar y dudalen nesaf.
- 5.11.** Wrth gynllunio'r amserlen hon, gwnaethom ystyried y canlynol:
- pa ddyddiau yw'r rhai mwyaf cyffredin ar gyfer dychwelyd ffurflenni i ACC;

- faint o amser mae'n ei gymryd i ffurflen gael ei chyflwyno (i leihau diwygiadau);
- y gofynion adrodd ar gyfer eu cynnwys mewn cyhoeddiadau gan adrannau eraill y llywodraeth, gan gynnwys CThEM, y Swyddfa Ystadegau Gwladol a Thrysorlys Cymru (o fewn y Llywodraeth Cymru);
- lefel y datgrynhoi yn y data, er mwyn osgoi cyhoeddi gwerthoedd sydd wedi'u hatal; ac
- amserlenni ar gyfer cyhoeddiadau CThEM a Revenue Scotland sy'n darparu ystadegau tebyg.


5.12. Ein dull yw cyhoeddi amcangyfrifon cychwynnol sy'n cael eu diwygio wedyn pan ddaw rhagor o ddata i'r amlwg.

Amseru Ystadegau Swydddogol ar gyfer Treth Trafodiadau Tir

Mae'r diagram isod yn amlinellu'r amserlen ar gyfer adrodd ar drafodiadau sy'n destun Treth Trafodiadau Tir (TTT) i Awdurdod Cyllid Cymru (ACC); a'r effaith a gaiff hyn ar amseriad ystadegau swydddogol.

Mae'r tri bar isod yn cynrychioli enghreifftiau o drafodiadau, pob un gyda dyddiadau gwahanol ar gyfer dod i rym. Mae'r bar cyntaf yn dangos lle mae dyddiad dod i rym y trafodiad (y dyddiad cwblhau, fel arfer) yn ddiwrnod 1 o fis 1, yn yr ail far y diwrnod dod i rym yw diwrnod 15 o fis 1, ac yn y trydydd bar, diwrnod 28 o fis 1.

Mae'r diagram yn tynnu sylw efallai na fydd trafodiadau sy'n digwydd yn ddiweddarach yn y mis yn cael eu cynnwys yn yr amcangyfrifon cyntaf ar gyfer mis 1, oherwydd y cyfnod o 30 diwrnod ar gyfer hysbysu ACC a'r dyddiad terfyn er mwyn galluogi ystadegau amserol.



Amseroedd cyhoeddi

Dyddiad terfyn ar gyfer amcangyfrifon: 3ydd dydd Llun y mis

Cyhoeddi'r ystadegau misol ar dydd Gwener yn yr un wythnos

Cyhoeddi'r ystadegau chwarterol ar dydd Iau yn yr wythnos canlynol

Treth Gwarediadau Tirlenwi - amseriad a diwygiadau wedi'u cynllunio

- 5.13.** Mae ffurflenni treth ar gyfer y Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn cael eu cyflwyno i ACC bob chwarter. Mae pob gweithredwr safle tirlenwi yn cytuno ar gyfnod cyfrifyddu chwarterol gydag ACC ar gyfer dychwelyd ffurflen y dreth gwarediadau tirlenwi. Mae'n rhaid i'r ffurflen hon gael ei derbyn erbyn diwrnod gwaith olaf y mis yn dilyn diwedd y cyfnod cyfrifyddu. [Mae data'r DU yn cael ei gyhoeddi bob mis gan CThEM](#). Ond, gyda nifer llai o weithredwyr nid ydym yn gallu cyhoeddi data misoedd unigol heb ddatgelu ffurflenni treth ar gyfer nifer bach o weithredwyr.
- 5.14.** Gan fod gweithredwyr y safleoedd tirlenwi yn cyflwyno'r data i ni bob chwarter, rydym yn cyhoeddi'r data bob chwarter.

Diwygiadau heb eu cynllunio oherwydd camgymeriadau

- 5.15.** Os bydd camgymeriad yn cael ei ganfod mewn datganiad ystadegol cyhoeddedig, bydd Pennaeth Dadansoddi Data ACC yn ystyried pa mor sylweddol ydy'r camgymeriad ac yn cymryd y camau priodol.

Os yw'r camgymeriad yn un bach, fel gwall teipio, bydd y datganiad ystadegol yn cael ei ddiweddaru a'i gyhoeddi ar y wefan, Ni fydd camau pellach yn cael eu cymryd.

Os ystyrir bod camgymeriad yn sylweddol ac y gellir cywiro'r camgymeriad yn syth, bydd y datganiad ystadegol yn cael ei ddiweddaru a'i gyhoeddi ar y wefan gyda nodyn o'r diwygiad. Bydd defnyddwyr yn cael gwybod am y diwygiad drwy e-bost a Twitter.

Os ystyrir bod camgymeriad yn sylweddol ond nad oes modd ei gywiro'n syth adeg canfod yr ystadegau anghywir, efallai y bydd yr ystadegau'n cael eu tynnu oddi ar wefan ACC a [StatsCymru](#) dros dro tra bo'r diweddariad yn cael ei baratoi. Bydd nodyn i gyd-fynd â hynny yn cael ei ychwanegu at y wefan yn y cyfryw achosion.

- 5.16.** Pan fydd diwygiad oherwydd camgymeriad yn cael ei nodi, bydd yr ystadegau diwygiedig yn cael eu rhyddhau i'r un gynulleidfa a thrwy'r un cyfryngau.

6. Storio a rheoli data

- 6.1.** Y Pennaeth Dadansoddi Data sy'n gyfrifol am reoli'r asedau data sy'n cael ei storio yn yr amgylchedd dadansoddi data. Dyma brif elfennau'r cyfrifoldeb hwn:
- casglu a chadw metadata ar gyfer daliad cyfan yr ased data, gan gynnwys asesu dulliau sicrhau ansawdd yn unol â'r canllawiau sy'n gysylltiedig â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau, a dogfennau ar gyfer adnoddau ystadegol cysylltiedig;
 - darparu mynediad i'r ased data mewn modd sydd mor fanwl ag sy'n ymarferol a dibynadwy bosibl, yn amodol ar gyfyngiadau cyfreithiol a rhai cyfrinachedd, mewn fformat defnyddiol a hyblyg i'r defnyddiwr;
 - rheoli'r baich ar gyflenwyr y asedau data drwy sicrhau bod y manylder sy'n ofynnol yn gymesur ac yn angenrheidiol ac yn osgoi gorfod ail-wneud ceisiadau; a
 - gwarchod uniondeb a diogelwch yr ased data yn unol â pholisïau mewnol a'r deddfwriaeth diogelu data berthnasol, gan gynnwys: storio a throsglwyddo gwybodaeth yn ddiogel; prosesu teg sy'n gysylltiedig â gwybodaeth bersonol; ac asesiad rheolaidd o'r risgiau ar gyfer adnabod unigolion yn yr ased data a'r allbynnau ystadegol cysylltiedig, ac unrhyw gamau lliniaru sy'n ofynnol i leihau'r risgiau hynny.
- 6.2.** Mae ein datganiadau rheolaidd yn diwygio amcangyfrifon sydd wedi cael eu cyhoeddi'n flaenorol, wrth i ffurflenni treth gael eu diwygio neu wrth i ffurflenni treth newydd gael eu cyflwyno. Y data a gyflwynir ar [StatsCymru](#) fydd y fersiwn ddiweddaraf bob tro o'r ystadegau. Bydd y fersiwn flaenorol o'r ystadegau'n cael ei rhoi o'r neilltu. Ond bydd fersiynau archif ar gael ar gais drwy [gysylltu â ni](#).

7. Cwynion

- 7.1. Rydym yn gwerthfawrogi unrhyw adborth ac unrhyw ymholiadau a gawn. Ein nod yw darparu ymatebion proffesiynol ac amserol, bod yn agos-atoch-chi a pharod i helpu, a chymryd pob cam rhesymol i ddarparu gwybodaeth sy'n berthnasol, yn gywir ac yn gyfredol.
- 7.2. Os bydd gennych gŵyn am ystadegau ACC, gallwch gysylltu â ni i gwyno. [Mae rhagor o wybodaeth am broses gwyno ACC ar gael ar wefan ACC.](#)

Atodiad A: Geirfa

Term	Disgrifiad
Prif Ystadegydd y Gweinyddiaethau Datganoledig	Y prif rai sy'n rhoi cyngor am ystadegau swyddogol yn eu gweinyddiaethau unigol. Maent yn gyfrifol am weithredu a chydlynu'r safonau ystadegol proffesiynol ac am sicrhau y cydymffurfir â'r Cod. Yng Ngogledd Iwerddon, y Prif Ystadegydd ydy Cofrestrydd Cyffredinol a Phrif Weithredwr Asiantaeth Ystadegau ac Ymchwil Gogledd Iwerddon. Mae'r Prif Ystadegydd yn Llywodraeth yr Alban yn gweithio ar y cyd â Chofrestrydd Cyffredinol yr Alban a'r Pennaeth Proffesiwn dros Ystadegau Iechyd a Gofal. Y Prif Ystadegydd yn Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am y safonau ystadegol proffesiynol yng Nghymru.
Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau neu 'y Cod'	Mae'r Cod yn darparu'r arferion manwl y dylai cynhyrchwyr ystadegau swyddogol ymrwymo iddynt wrth gynhyrchu a rhyddhau datganiadau swyddogol. Mae'r Cod ar gael ar wefan Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig.
Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth (GSS)	Rhwydwaith trawslywodraethol ydy'r GSS, sy'n gweithredu ar draws amrywiaeth o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys elfennau o'r gweinyddiaethau datganoledig ac adrannau llywodraeth y DU. Dan arweiniad yr Ystadegydd Cenedlaethol, mae'n cynnwys ystadegwyr, ymchwilwyr, economegwyr, dadansoddwyr, staff darparu ar lefel weithredol, arbenigwyr TG a rolau cefnogi eraill. Mae cymuned y GSS yn cydweithio i ddarparu'r sylfaen dystiolaeth ystadegol y mae'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau ei hangen. Mae'n cyhoeddi oddeutu 2,000 set o ystadegau bob blwyddyn, ac yn darparu cyngor a dadansoddiad proffesiynol i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau.

Polisi Daearyddiaeth y GSS	Mae Polisi Daearyddiaeth y GSS yn darparu canllawiau arfer gorau er mwyn i gynhyrchwyr ystadegau wneud y canlynol: • rhoi cyfeiriad daearyddol i ddigwyddiadau ystadegol, mewn modd cywir, cyson ac ar y lefel isaf bosibl; • sicrhau hyd yr eithaf bod modd cymharu eu hystadegau ag ystadegau swyddogol eraill; • lleihau hyd yr eithaf effaith newid ffiniau ardaloedd ar allbynnau ystadegau swyddogol; • safoni sut mae gwybodaeth ddaearyddol a gwybodaeth gysylltiedig yn cael ei diffinio, ei defnyddio a'i chyflwyno mewn ystadegau; a • bodloni'r gofynion cyfreithiol i ddiogelu cyfrinachedd ystadegau. <u>Mae Polisi Daearyddiaeth y GSS i'w gael yn storfa polisïau'r GSS.</u>
Treth Trafodiadau Tir	O 1 Ebrill 2018, cafodd Treth Dir y Dreth Stamp (y DU) ei disodli yng Nghymru gan y Dreth Trafodiadau Tir. Mae'r dreth hon yn cael ei chasglu a'i gweinyddu gan Awdurdod Cyllid Cymru. Mae Treth Trafodiadau Tir yn daladwy pan fyddwch yn prynu neu'n prydlesu adeilad neu dir sy'n fwy na phris penodol. Gall effeithio ar bobl sy'n gwerthu ac yn prynu tai a busnesau gan gynnwys adeiladwyr, datblygwyr eiddo ac asiantau sy'n gysylltiedig â'r broses trafodiadau (fel cyfreithwyr a thrawsgludwyr).
Treth Gwarediadau Tirlenwi	O 1 Ebrill 2018, cafodd Treth Tirlenwi'r DU ei disodli yng Nghymru gan y Dreth Gwarediadau Tirlenwi. Mae'r dreth hon yn cael ei chasglu a'i gweinyddu gan Awdurdod Cyllid Cymru. Mae'r Dreth Treth Gwarediadau Tirlenwi yn dreth ar waredu gwastraff i safleoedd tirlenwi a chodir y dreth yn ôl pwysau. Mae'n daladwy gan weithredwyr safleoedd tirlenwi, sy'n trosglwyddo'r costau hyn i weithredwyr gwastraff drwy eu ffi glwyd (<i>gate fee</i>).

Swyddog Arweiniol Ystadegau	Mae'r Cod Ymarfer yn diffinio'r swyddog arweiniol fel yr uwch ystadegydd neu ddadansoddwr mewn corff hyd braich sydd wedi cael y cyfrifoldeb o arwain ar faterion proffesiynol gan y sefydliad ac sy'n cydlynu gyda'r Pennaeth Proffesiwn ar gyfer Ystadegau mewn adran sy'n noddi. Y swyddog arweiniol yn ACC yw'r Pennaeth Dadansoddi Data. Er nad yw ACC yn cael ei noddi gan Lywodraeth Cymru, rydym yn cydweithredu gyda Phrif Ystadegydd Llywodraeth Cymru pan fo'n briodol.
Ystadegau Swyddogol	Dyma'r ystadegau a gynhyrchir gan gyrff y goron, y rheini sy'n gweithredu ar ran cyrff y goron, neu'r cyrff hynny a nodir mewn gorchmynion statudol, fel y'u diffinnir yn adran 6 o Ddeddf y Gwasanaeth Ystadegau a Chofrestru 2007. Mae ACC yn cael ei enwi fel cynhyrchydd Ystadegau Swyddogol yng 'Ngorchymyn Ystadegau Swyddogol (Cymru) 2017'.
Data agored	Data y gall unrhyw un ei ddefnyddio, ei aildddefnyddio a'i ailddosbarthu yn rhad ac am ddim.
Trwydded Llywodraeth Agored	Mae'r Archifau Cenedlaethol wedi datblygu'r Drwydded Llywodraeth Agored fel cyfrwng i alluogi Darparwyr Gwybodaeth yn y sector cyhoeddus i drwyddedu'r defnydd o'u gwybodaeth a'i haildddefnyddio dan drwydded agored gyffredin. Mae'r Archifau Cenedlaethol yn gwahodd cyrff yn y sector cyhoeddus sy'n berchen ar eu hawliau cronfa ddata a hawlfraint eu hunain i ganiatáu i'w gwybodaeth gael ei defnyddio dan y drwydded hon. Rhoddir anogaeth i chi ddefnyddio ac aildddefnyddio'r wybodaeth sydd ar gael dan y drwydded hon yn rhydd a hyblyg, gydag ychydig o amodau.
Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau	Y Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau ydy adain reoleiddio Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig. Mae'n rheoleiddio'r holl ystadegau

	swyddogol a gynhyrchir yn y Deyrnas Unedig mewn modd annibynnol.
StatsCymru	StatsCymru yw storfa rad ac am ddim ar-lein Llywodraeth Cymru ar gyfer data ystadegol manwl i Gymru. Mae'n gadael i ddefnyddwyr edrych a thrin setiau data ar y sgrin, gan gynnwys y gallu i gynhyrchu siartiau. Gellir lawrlwytho data mewn sawl fformat a gellir ei gadw a'i rannu. Dilynwch y ddolen hon i fynd i wefan StatsCymru.
Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig neu 'yr Awdurdod'	Mae'r Awdurdod yn gorff statudol annibynnol. Mae'n gweithredu hyd braich ar y llywodraeth fel adran anweinidogol, ac mae'n atebol yn uniongyrchol i'r Senedd. Cafodd ei sefydlu ar 1 Ebrill 2008 gan Ddeddf Ystadegau a'r Gwasanaeth Cofrestru 2007. Un o amcanion statudol yr Awdurdod yw hyrwyddo a diogelu'r gwaith o lunio a chyhoeddi ystadegau swyddogol sydd 'ers lles y cyhoedd'.

Atodiad B: Datganiad: Mynediad cyn-rhyddhau i ystadegau ar eu ffurf derfynol

Awdurdod Cyllid Cymru Mynediad Cyn-rhyddhau i Ystadegau Swyddogol

Dylai unrhyw un sydd am gael mynediad cyn-rhyddhau at ystadegau swyddogol Awdurdod Cyllid Cymru wneud y datganiad hwn.

Mae Awdurdod Cyllid Cymru (ACC) yn cael ei enwi yng [Ngorchymyn Ystadegau Swyddogol \(Cymru\) 2017](#) fel corff sy'n cynhyrchu ystadegau swyddogol, fel y'i diffinnir gan [Ddeddf Ystadegau a Gwasanaethau Cofrestru 2007](#).

Caiff y swyddog arweiniol ar gyfer ystadegau yn Awdurdod Cyllid Cymru roi Mynediad Cyn-rhyddhau. Mae Ystadegau Cyn-rhyddhau yn rhoi mynediad i ystadegau ar eu ffurf derfynol cyn iddynt gael eu cyhoeddi. Mae'r rheolau sy'n dweud pwy gaiff fynediad cyn-rhyddhau a pham wedi'u nodi yng [Ngorchymyn Gweld Ystadegau Swyddogol cyn eu Rhyddhau \(Cymru\) 2009](#).

1. Rwy'n berson cymwys yn unol ag ystyr paragraff 3 o'r Atodlen i Orchymyn 2009.
2. Mae angen mynediad cyn-rhyddhau arnaf at ystadegau swyddogol ar gyfer fy swyddogaethau swyddogol.
3. Cyn cyhoeddi, byddaf yn cydymffurfio â'r amodau canlynol:
 - (i) peidio â datgelu'r ystadegau, unrhyw ran o gyhoeddiad sy'n cynnwys yr ystadegau hynny neu unrhyw awgrym o faint neu gyfeiriad unrhyw duedd a awgrymir gan yr ystadegau hynny;
 - (ii) peidio â defnyddio mynediad er mantais bersonol nac er mwyn cymryd unrhyw gamau er mantais wleidyddol; a
 - (iii) peidio â defnyddio mynediad i newid neu beryglu cynnwys, cyflwyniad neu amseriad cyhoeddi'r ystadegau.
4. Rwy'n hapus i'm swydd gael ei chynnwys yn y rhestr a gyhoeddir o'r swyddi a gafodd fynediad cyn-rhyddhau at yr ystadegau hyn. Caiff y rhestr hon ei chyhoeddi ar dudalennau gwe Awdurdod Cyllid Cymru.

Llofnod	
Enw	
Swydd (Saesneg)	
Swydd (Cymraeg)	
E-bost	

Dogfen Bolisi

Sefydliad / Adran	
Dyddiad	